

Dryllio'r Delwau

(Parhad o dudalen 11)

nghwmni mab hynaf Syr John Wynn o Wern, Llanfrothen, ac mai tan gysgod a nawdd hwnnw yr oedd. Y mae degau o lythyrau ymysg papurau Gwydir rhwng Syr John Wynne a'i fab John Wynn adeg y daith honno, ac nid oes iota o ddim am Inigo Jones ynddynt. Perai gydag ef oni fuasai ei enw wrth gwt ei ewyllys, ayyb?

Rhaid cofio ddarfod marw John Wynn ieuengaf yn Lucas yn ystod y daith hon.

Dwyed yr un llyfr ryw simsanact fel a ganlyn:

All tradition have generally some foundation, and it is commonly believed in the neighbourhood of Llanrwst, that Jones was born either at that town or Dolwyddelan... the tradition is also circumstantial, as to suppose that he was christened by the name of Ynyr, which after his travels into Italy, he exchanged for Inigo as sounding better.

Ac fel cadarnhad i'r simsaneiddiwch uchod dryr'r hanesydd Peter Bailey Williams, person Llanrug, nodiad ar waelod y ddalen:

I think with more probability, that it was Inco, which I find was a name not very un-common in these times and there is a house not far from Llanrwst which is called to this day Penraig Inco.'

Palfalu gwirionffol a fu ceisio priodoli mangre geni Inigo Jones fel Pengraig Inco, oherwydd tebygrwydd yr enw i Inigo, a ffwlbr i yw'r dybiaeth ddarfod iddo newid ei

enw o Ynyr i Inigo Jones.

Y tebyg yw na welodd Inigo Jones erioed Penraig Inco na chlywed sôn amdano ychwaith. Digon prin hefyd y clywodd erioed sôn am Syr John Wynne.

Y mae canoniaeth yr hyn a ysgrifennwyd am Inigo Jones yn y llyfr uchod yn annilys hollol.

Y ffaith yw fod tad Inigo Jones yn dwyn yr un enw â'i dad yn hollol. Enw ei dad oedd Inigo Jones, gwneuthurwr brethynau ym mhlwyf St Bartholomew yn West Smithfield yr hwn a wnaethai ei ewyllys ar 14 Chwefror 1596-7 ac a brofwyd 5 Mawrth 1597, a rhannwyd ei eiddo rhwng Inigo, Ioan, Judith a Mary.

Dyna brawf pendant na fu Inigo Jones dan yr enw Ynyr. Y mae'r Ewyllys yn y Somerset House, a phe buasai gysylltiad rhyngddo â theuluoedd yn Nant Conwy buasai I. A. Gotch wedi sôn am hynny yn ei lyfr arno.

Ac y mae Ewyllys Inigo Jones, y pensaer, wedi ei chyhoeddi gan Peter Cunningham ac ni enwa ynddi ond tri châr, sef

Elizabeth Jones a briododd Richard Gammon ym mhlwyf St Mary yn y Savoy;

Anne Jones a briododd John Webb (ysgutor Inigo), yn St Martins-in-the-Fields;

Mary a briododd Henry Wagstaff o St Martins-in-the-Fields.

Sieiyd John Webb am Inigo fel ei ewythr, fel yr oedd Ann, ei wraig, yn nith iddo, felly rhaid credu bod un o chwiorydd Inigo wedi priodi un o'r cyfenw Jones.

Y ffaith yw nad oes dystiolaeth ar gael er chwilio dygn gan ei gofianwyr ei fod yn gysylltiedig ag unrhyw ardal yng Nghymru

nag ag unrhyw deulu neilltuol yng Nghymru.

Nid oes wybodaeth gan neb o'r lle y ganed Inigo Jones ynddo, ond mae lle cryf i gredu mai yn Llundain yr oedd y teulu yn byw ers cenedlaethau gan ddarfod claddu ei nain yn Eglwys y plwyf St Bartholomew.

Fe wyddis fod bardd gwych o'r enw Inco Brydydd yn byw yn Eifionydd yn y cyfnod clasurol, ond fod Inigo Jones, tad y pensaer yn berthynas sydd yn annichonadwy i'w brofi. Cawn hanes fod Robert ab Inco ym mysg y rhai a gymerasai ran yn yr helynt fawr yn Eifionydd. Gwyddis fod Treforiaid y Waun a Llangollen yn cael lle amlwg yn yr helynt hwnnw ac ond odid felly nad oeddnt yn berthnasau neu noddwyr i Robert ab Inco.

Gwelsai Richard Llwyd (*Beaumaris Bay*), oedd yn gyfarwydd iawn ag achau ac arfbeisiau pan oedd ar ei rawd yn Llundain, ryw bortread o Inigo Jones ac yn gysylltiedig ag ef arfbais y Treforiaid yr hyn, meddai yr achyddwr crybwylledig: 'ydoedd brawf diogel o fod Inigo yn deilliaw o Dudur Trefor, sylfaenydd yr 16eg o Lwythau Gwynedd'.

Yn yr Additional MS 23073, folio 45 y ceir arfbais oedd ar ffrâm wreiddiol o ddarlun Houghton o Inigo Jones, a disgrifir 'per bend sinister ermine and erminois, a lion rampant', a dywedir ar bwys yr arfbais fod ei dad yn disgyn o Jonesiaid Garth Gynan yn Sir Ddinbych.

Ond odid na theyr dyn yn ddamweiniol ar ysgrifau a deifl oleuni ar ei achau, cyn hir a fydd yn malu pob iot o'r ensyniadau uchod ond hyd nes y ceir y rheiny rhaid bodloni ar balfalu o ba le yr hanna.

Siop Lyfrau'r Hen Bost

45 Stryd Fawr, Blaenau Ffestiniog, Gwynedd LL41 3AA

Ffôn: (01766) 831802

e-bost: Dafydd@hen-bost-books.freeserve.co.uk

Llyfrau newydd, ail-law a hynafiaethol

Llyfrau newydd, ail law ac hynafiaethol

1. Thomas, Gwyn, <i>Y Traddodiad Barddol</i> , 1976	6.50	26. Williams, T. Nefyn, <i>Yr Ymchwil</i> , 1949.	6.50
2. Williams, Huw, <i>Tonau a'u Hawduron</i> , 1967	4.50	27. Jones, J. T., <i>Christmas Evans</i> , 1938.	4.00
3. Blackwell, John (gol.), <i>Cylchgrawn y Gymdeithas er Taenu Gwybodaeth Fuddiol</i> , 1834.	37.50	28. Evans, D. Tecwyn, <i>Atgofion Cynnar</i> , 1951.	4.00
4. Lewis, Mostyn, <i>Stained Glass in North Wales up to 1850</i> , 1970.	60.00	Mân Lyfrynnau a Phamffledi	
5. Waddington, J., <i>John Penry the Pilgrim Martyr</i> , 1854.	12.00	29. <i>Bye-Gones</i> , October to December 1895.	9.00
6. Prichard, J. C. & Latham, R. G. <i>The Eastern Origin of the Celtic Nations</i> , 1857.	50.00	30. Carnrhawdfardd: <i>Penillion Cofianol am y Parch Thomas Aubrey</i> , taflen A5, 1867.	4.50
7. Thomas, Gwyn, <i>Y Bardd Cwsg a'i Genfnid</i> .	15.00	31. Crankshaw, W. P.: <i>Report on a Survey of the Welsh Textile Industry</i> , 1927, 23t.	5.50
8. Calendar of Wynn (of Gwydir) Papers, 1926.	45.00	32. <i>Y Cyfaill o'r Hen Wlad</i> , Hydref 1871.	4.50
9. Davies, J. Glyn, <i>Welsh Metrics Vol. I</i> , 1911.	12.00	33. Baled: <i>Cân Newydd sef Dull y Gyfraith yn y Work-Houses Newydd</i> , 4 tud.	5.00
10. Salter, J. H., <i>The Flowering Plants and Ferns of Cardiganshire</i> , 1935.	15.00	34. Baled: <i>Cân Toriad Fy Nghoes, gyda Cerdd y Gog Lwydilas</i> , 4 tud.	5.50
11. Sommerfelt, A., <i>Lochlan Vol 2</i> , 1962.	10.00	35. Baled: <i>Castiau Lerpwl, Cân ddiweddf Dic Dywyll</i> , 4 tud.	6.00
12. Jackson, K., <i>Early Welsh Gnostic Poems</i> , 1935.	10.00	36. Spinther: <i>Cymdeithas Genhadol y Bedyddwyr a'r Camerons</i> , 70 tud.	5.50
13. Pryce, A. I., <i>The Diocese of Bangor in the Sixteenth Century</i> , 1923.	10.00	37. Jones, John, (Llansanffraid): <i>Blwch Caniadau</i> , 1846, 88 tud.	7.50
14. Hutton, W., <i>Remarks upon North Wales</i> , 1803.	75.00	38. Steers, J.A.: <i>Sand and Shingle Formations in Cardigan Bay</i> , adargraff, 1939, llofnod Bob Owen, 17tud.	6.50
15. Gruffydd, W. J., <i>Rhiannon</i> , 1953.	10.00	39. Leveick, J.J.: <i>The Early History of Merion and an Old Welsh Pedigree</i> , adargraff 1880.	9.00
16. Ellis, T. I., <i>Crwydro Maldwyn</i> , 1957.	6.00	40. Jones William (Corris): <i>Emynau a gyfansoddwyd Wrth Wrandaw Pregethau yng Nghapel Rehoboth, Corris</i> , 1854, 56 tud.	8.00
17. Ellis, T. I., <i>Crwydro Meirionnydd</i> , 1953.	6.00	41. Roberts, G.: <i>Guide to Bangor Cathedral</i> , 1928, 16 tud.	4.00
18. Williams, J. E. Caerwyn, <i>Ysgrifau Beirniadol 2</i> , 1966.	9.00	42. Jones, Robert (Cerniog Bach): <i>Hanes yr Achos Crefyddol yn Mynydd Nefyn</i> , 1913.	4.50
19. Jones, R., <i>Crynwyr Bore Cymru</i> , 1931.	25.00		
20. Stephens, Meic (gol.), <i>Cydymaith i Lenyddiaeth Cymru</i> , 1986.	12.00		
21. Griffith, Roberts, <i>Llyfr Cerdd Dannau</i> .	15.00		
22. Stephens, T. (gol.) <i>Cymru Heddyw ac Yforu</i> , 1908.	10.0		
23. Williams, T. Hudson, <i>A short Introduction to Comparative Grammar</i> , 1966.	4.00		
24. Roberts, Kate, <i>Stryd y Glep</i> , 1949.	4.00		
25. Williams, T. Nefyn, <i>Y Ffordd yr Edrychaf ar Bethau</i> , 1928.	5.00		

Codir yn ychwanegol am gludiad